Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Mesur arfaethedig Diwydiant Cig Coch (Cymru)**

**Dyddiad:** **19 Hydref 2009**

**Gan:** **Elin Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth**

Bydd aelodau'n awyddus i nodi bod Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) yn cael ei osod heddiw, 29 Hydref 2009. Byddaf yn gwneud Datganiad Deddfwriaethol yn y cyfarfod llawn yfory, 20 Hydref 2009, i gyflwyno'r Mesur.

Diben y Mesur dan sylw yw bod yn gyfrwng galluogi. Drwyddo, caiff Gweinidogion Cymru, trwy is-ddeddfwriaeth a thrwy gyfarwyddyd, bennu manylion fframwaith ar gyfer datblygu a hyrwyddo'r diwydiant cig coch pwysig yng Nghymru.

Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru allu gwneud darpariaethau manwl mewn rheoliadau ynghylch y canlynol:

- Gwneud y diwydiant yn fwy effeithiol neu gynhyrchiol;
- Marchnata'r diwydiant yn well;
- Gwella neu ddatblygu'r gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu neu y gallai eu darparu i'r gymuned; a
- Gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

Ystyr y diwydiant cig coch yn ôl y diffiniad ohono yn y Mesur arfaethedig yw'r:

a) holl weithgareddau sy'n rhan o fridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu unrhyw rai o'r anifeiliaid canlynol - gwartheg, defaid, neu foch; a

b) holl weithgareddau sy'n rhan o gynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth (ar wahân i laeth a chynhyrchion llaeth, gwlân cnu a chrwyn).

Mae'r Mesur dan sylw yn gosod fframwaith ar gyfer codi ardoll ar y rheini sy'n cynnal gweithgareddau cynradd fel bridio a magu ac ar y rheini sy'n cynnal gweithgareddau eilaidd fel cigydda, allforio neu hyrwyddo. Byddai hynny'n

barhad o’r trefniadau sydd wedi bod yn eu lle ers sefydlu’r Comisiwn Cig a Da Byw o dan y Ddeddf Amaeth ym 1967. Ers hynny, mae’r rheini sydd wedi bod yn gysylltiedig â’r diwydiant cig coch wedi bod yn talu ardoll orfodol. Mae’r ardoll honno wedi bod yn gyfrwng i ddarparu i gynulleidfa ehangach y gweithgareddau, fel hyrwyddo a marchnata allanol ac ymchwil a datblygu, na fyddai ffermwyr a phroseswyr bychain ar eu pennau eu hunain wedi gallu eu fforddio.

Ers 1967, mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i’r trefniadau, a’r mwyaf diweddar oedd sefydlu Bwrdd Ardollau Cymru ar 1 Ebrill 2007. Rôl y Corff Cyhoeddus hwn a Noddir gan y Cynulliad yw darparu mecanwaith ar gyfer darparu’r ardoll cig coch a’r trefniadau cymorth cysylltiedig yng Nghymru. Roedd yn rhaid wrth y trefniadau hynny oherwydd o ganlyniad i’r ad-drefnu ar lefel y Deyrnas Unedig yn sgil Adroddiad Radcliffe ar fecanweithiau’r cymorth i’r sector amaeth, dyna oedd yr unig ddewis ymarferol i Gymru. Fodd bynnag, nid yw’n ateb boddhaol ar gyfer y tymor hir ac mae’r cydsyniad brenhinol a gafwyd i’r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ym mis Gorffennaf eleni wedi agor y drysau inni allu cyflwyno’r Mesur dan sylw a fydd yn rhoi’r pwerau sydd eu hangen ar Weinidogion Cymru i fynd i’r afael â’r mater hwn eu hunain.

Ers 2003 a ffurfio Hybu Cig Cymru (HCC), mae’r ardoll sydd wedi cael ei chasglu yng Nghymru ar ran y Comisiwn Cig a Da Byw wedi bod yn cael ei rhoi i HCC o dan gytundeb dirprwyo iddo allu cynnal ei weithgareddau hyrwyddo a datblygu pwysig. Chwaraeodd HCC ran bwysig iawn wrth sicrhau cydnabyddiaeth Ewropeaidd i Gig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru a chael statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig i’r ddau gynnyrch pwysig hwn. Dyma enghraifft da o’r math o fanteision a ddaw o drefnu gweithgareddau’n ganolog gan ddefnyddio nawdd ariannol yr ardoll.

Nid yw’n fwriad gwneud newidiadau i’r trefniadau dirprwy presennol a rhagwelir darparu trefniant dirprwyo newydd rhwng Gweinidogion Cymru a HCC a fydd yn caniatáu HCC i barhau fel cynt.